# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y CABINET

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD IAU, 16 MAWRTH 2017 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd R C Stewart (Cadedirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | R Francis-Davies |
| J E C Harris | D H Hopkins | J A Raynor |
| C Richards | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb.**
Y Cynghorydd: A S Lewis a C E Lloyd

161. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddion canlynol:

Y Cynghorydd C Richards – Personol – Cofnod Rhif 183 – Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol - Rwy'n adnabod yr ymgeisydd.

Y Cynghorydd R Stewart - Personol - Cofnod Rhif 183 - Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol - Rwy'n adnabod dau o'r bobl a enwir yn yr adroddiad.

162. **COFNODION**

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1. Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2017; ac
2. chyfarfod y Cabinet Arbennig a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2017.

163. **ADRODDIAD(AU) ARWEINYDD Y CYNGOR**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan yr arweinydd, ond cyfeiriodd at ddogfen atodol a oedd yn gysylltiedig â chofnod rhif 186 - FPR7 – Prosiect Isadeiledd Ffordd y Brenin a oedd wedi'i gyhoeddi a'i ddosbarthu fel adendwm i'r adroddiad.

## 164. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Gofynnwyd sawl cwestiwn gan un aelod o'r cyhoedd. Ymatebodd yr arweinydd yn unol â hyn.

## 165. HAWL I HOLI CYNGHORWYR

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 166. ADBORTH AR GRAFFU CYN PENDERFYNU - ADFYWIO CANOL DINAS ABERTAWE - STRATEGAETH CYFLWYNO AC ARIANNU (LLAFAR)

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynghorydd M H Jones wedi cyflwyno ymddiheuriadau am nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod.

Nododd y Cynghorydd S E Crouch fod Pwyllgor y Rhaglen Graffu wedi gofyn iddi dynnu sylw at bryderon y pwyllgor ynghylch diffygion y Strategaeth Llety.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y llythyr a anfonwyd at Aelod y Cabinet ynghylch y broses craffu cyn penderfynu a nodwyd gan aelodau, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd S E Crouch.

## 167. ADFYWIO CANOL DINAS ABERTAWE - STRATEGAETH CYFLWYNO AC ARIANNU

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb i symud ymlaen i gamau nesaf adfywio canol y ddinas a chadarnhau cyllid yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r goblygiadau ariannol fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad;
2. Cymeradwyo asesiad adfywio economaidd trosgynnol a fydd yn sail i unrhyw benderfyniadau i fuddsoddi mewn cyflwyno prosiectau cyfalaf, gan gynnwys asesiad sgiliau a fydd yn sylfaen i gyflwyno;
3. Awdurdodi swyddogion i ofyn i Lywodraeth Cymru i ddynodi canol dinas Abertawe'n ardal Cyllid Cynyddrannau Treth (TIF) ddynodedig;
4. Cytuno ar y cyfalaf blynyddol angenrheidiol a'r arian refeniw sydd ei angen er mwyn cyflwyno'r prosiectau hyn;
5. Nodi pob rhyngddibyniaeth ar gyfer cynlluniau tebyg eraill sy'n cael eu datblygu ar gyfer isadeiledd Sgwâr y Castell a Ffordd y Brenin.

## 168. ADBORTH AR GRAFFU CYN PENDERFYNU - DATBLYGIAD SGWÂR Y CASTELL A CHYFLEOEDD AM FANNAU CYHOEDDUS (LLAFAR)

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynghorydd M H Jones wedi cyflwyno ymddiheuriadau am nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod.

Nododd y Cynghorydd S E Crouch fod Pwyllgor y Rhaglen Graffu wedi gofyn iddi dynnu sylw at bryderon y pwyllgor ynghylch cynigion ar gyfer Sgwâr y Castell fel y'u nodir yn y llythyr oddi wrth y Cynghorydd M H Jones.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y llythyr a anfonwyd at Aelod y Cabinet ynghylch y broses craffu cyn penderfynu, a nodwyd gan aelodau.

## 169. DATBLYGU A CHYFLE AM FAN CYHOEDDUS SGWÂR Y CASTELL

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio gyd-destun yr opsiynau i gefnogi gwella Sgwâr y Castell a'r cyfle datblygu posib yno, ynghyd ag arfarniad ohonynt. Cyflwynodd hefyd y sylwadau a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r Hysbysiad o Fan Agored Cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r ymatebion allweddol yn dilyn yr Hysbysiad o Fan Agored Cyhoeddus;
2. Cefnogi paratoi arfarniad o opsiynau a briff ar gyfer y safle sy'n cyd-fynd â datblygiad canol dinas ehangach, ac adrodd yn ôl i'r Cabinet cyn marchnata unrhyw safle.

## 170. ADBORTH AR GRAFFU CYN PENDERFYNU - ADOLYGIAD COMISIYNU'R GWASANAETHAU CEFNOGI TEULUOEDD - ADRODDIAD ARFARNU OPSIYNAU (PORTH 2) AR GYFER ADOLYGIAD COMISIYNU'R CLWSTWR PLANT DAN 11 OED (LLAFAR).

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynghorydd P R Hood-Williams wedi cyflwyno ymddiheuriadau am nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y llythyr a anfonwyd at Aelod y Cabinet ynghylch y broses craffu cyn penderfynu, a nodwyd gan aelodau.

## 171. ADOLYGIAD COMISIYNU'R GWASANAETHAU CEFNOGI TEULUOEDD - ADRODDIAD ARFARNU OPSIYNAU (PORTH 2) AR GYFER ADOLYGIAD COMISIYNU'R CLWSTWR PLANT DAN 11 OED

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc yr Arfarniad Opsiynau a oedd yn amlinellu'r broses a'r canfyddiadau, ac a oedd hefyd yn nodi'r Modelau Cyflwyno Newydd ar gyfer Clwstwr Plant Dan 11 oed yr Adolygiad Comisiynu Cefnogi Teuluoedd.

**PENDERFYNWYD** ei bod hi'n briodol bwrw ymlaen â'r trydydd opsiwn a ffefrir a amlinellir yn Adran 3 yr adroddiad fel mesur i wella perfformiad, gwneud y gwasanaeth yn fwy cadarn a sicrhau effeithlonrwydd, a'i roi ar waith.

## 172. ADBORTH AR GRAFFU CYN PENDERFYNU - ADOLYGIAD COMISIYNU'R GWASANAETHAU CEFNOGI TEULUOEDD - ADRODDIAD ARFARNU OPSIYNAU (PORTH 2) AR GYFER ADOLYGIAD COMISIYNU'R CLWSTWR PLANT DROS 11 OED (LLAFAR)

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y Cynghorydd P R Hood-Williams wedi cyflwyno ymddiheuriadau am nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y llythyr a anfonwyd at y Aelod y Cabinet ynghylch y broses craffu cyn penderfynu, a nodwyd gan aelodau.

## 173. ADOLYGIAD COMISIYNU'R GWASANAETHAU CEFNOGI TEULUOEDD - ADRODDIAD ARFARNU OPSIYNAU (PORTH 2) AR GYFER ADOLYGIAD COMISIYNU'R CLWSTWR PLANT DROS 11 OED

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc yr Arfarniad Opsiynau a oedd yn amlinellu'r broses a'r canfyddiadau ac a oedd hefyd yn nodi'r Modelau Cyflwyno Newydd ar gyfer Clwstwr Plant Dros 11 oed yr Adolygiad Comisiynu Cefnogi Teuluoedd.

**PENDERFYNWYD** ei bod hi'n briodol bwrw ymlaen â'r ail opsiwn a ffefrir a amlinellir yn Adran 3 yr adroddiad fel mesur i wella perfformiad, gwneud y gwasanaeth yn fwy cadarn a sicrhau effeithlonrwydd, a'i roi ar waith.

## 174. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD CHWARTER 3 2016-17

Cyflwynodd **Arweinydd y Cyngor** fanylion Perfformiad Corfforaethol a Gwasanaethau ar gyfer Chwarter 3, 2016-2017.

**PENDERFYNWYD** nodi ac adolygu'r canlyniadau perfformiad i helpu i gyfeirio penderfyniadau gweithredol ynglŷn â dyrannu adnoddau a, lle bo'n berthnasol, gamau gweithredu cywiro i reoli a gwella perfformiad ac effeithiolrwydd wrth gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

## 175. AMCANION A DATGANIAD LLES 2017/18

Cyflwynodd **Arweinydd y Cyngor** amcanion a datganiad lles 2017/18 i'r cyngor fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cynnig y canlynol i'r cyngor:

1. Bod 5 blaenoriaeth allweddol y cyngor a fynegwyd yn ei Gynllun Corfforaethol presennol ar gyfer 2016/17 yn parhau yn 2017/18 fel amcanion lles y cyngor;
2. Bod Datganiad Lles y cyngor ar gyfer 2017/18 yn cael ei gymeradwyo;
3. Bod y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i adolygu amcanion lles y cyngor yn parhau ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol gyda'r Weinyddiaeth newydd etholedig i 2017/18, a bod Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

## 176. Y CAM NESA - CRONFA GYMDEITHASOL EWROP - DERBYN GRANT

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gymryd rhan yn y prosiect Cam Nesaf, ac ymgymryd â'r camau angenrheidiol i'w roi ar waith.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r cynnydd a wnaed gan y prosiect i sicrhau cymeradwyaeth lawn gan Swyddog Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO);
2. Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, sy'n gweithredu fel y Cyswllt Awdurdodi ar gyfer y prosiect, i dderbyn y Cynnig Mawr a wnaed gan WEFO;
3. Sicrhau bod adroddiadau rheolaidd ar y cynnydd yn cael eu rhoi i'r Panel Ariannu Allanol;
4. Ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth â Chyngor Sir Penfro ac awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i ymrwymo i unrhyw ddogfennaeth gyfreithiol briodol ynghyd â'r darpariaethau sy'n angenrheidiol i amddiffyn buddion y cyngor.

## 177. CYNLLUN PEILOT GOFAL PLANT AM DDIM I BLANT 3 A 4 OED

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc ac Addysg adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth am yr ardaloedd targed ar gyfer y Cynllun Peilot Gofal Plant Am Ddim.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cynigion ar gyfer yr ardaloedd targed ar gyfer blwyddyn gyntaf y Cynllun Peilot Gofal Plant Am Ddim, fel y'u rhestrir dan adrannau 2.9, 2.10 and 2.11.

## 178. RHAGLEN GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL A'U GWELLA - CRONFA GYFFREDINOL TAI (CGT) 2017/18

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn darparu manylion y Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'u Gwella ac yn ceisio cymeradwyaeth i gynnwys cynlluniau yn Rhaglen Gyfalaf 2017-18.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Rhaglen Grant Cyfleusterau i'r Anabl a'u Gwella fel y'i nodwyd, gan gynnwys ei goblygiadau ariannol, ac y dylid cynnwys cynlluniau yng Nghyllideb Gyfalaf 2017/18.

## 179. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O DALIADAU (YN BERTHNASOL AR GYFER 2017/18) - Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn a'r Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc adroddiad a oedd yn ceisio adolygu'r taliadau (Gwasanaethau Cymdeithasol), i sefydlu proses adolygu ac ymgynghori flynyddol ac i ystyried diwygiadau i'r rhestr brisiau a fydd yn berthnasol yn 2017/18.

**PENDERFYNWYD:**

1. Derbyn y broses o gynnal adolygiad blynyddol o daliadau ar gyfer gofal cymdeithasol, a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â phroses pennu cyllideb flynyddol y cyngor yn y blynyddoedd i ddod;
2. Cymhwyso'r cynnydd chwyddiannol arfaethedig i daliadau gofal cymdeithasol yn 2017/18.

## 180. ADRODDIAD AR FFRAMWAITH EGWYDDORION ATAL BAE'R GORLLEWIN A'R STRATEGAETH ATAL AR GYFER ABERTAWE

Cyflwynodd **Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn a Lles** a Dinas Iach egwyddorion Fframwaith Atal Bae'r Gorllewin a Strategaeth Atal Dinas a Sir Abertawe sy'n cyflwyno'n blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar i bobl yn Abertawe.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo Egwyddorion Fframwaith Atal Bae'r Gorllewin a'r Strategaeth Atal ar gyfer Abertawe, yn amodol ar ymgynghoriad ehangach;
2. Cymeradwyo'r cylch gwaith fel y'i nodir ym mharagraff 3.3;

## 181. FPR7 - DYRANIAD CYFALAF AR GYFER ASEDAU ISADEILEDD PRIFFYRDD 2017-18

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth y Rhaglen Gwaith Cyfalaf ar gyfer asedau isadeiledd priffyrdd.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r dyraniadau arfaethedig, ynghyd â'r Goblygiadau Ariannol a nodir yn Atodiad A, ac y dylid eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

## 182. ADRODDIAD CYNNAL A CHADW CYFALAF 2017/18

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn ceisio cytundeb ar y cynlluniau i'w hariannu drwy'r Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn:

1. Cymeradwyo'r cynlluniau cynnal a chadw cyfalaf arfaethedig fel a restrir yn Atodiad A;
2. Awdurdodi'r goblygiadau ariannol a nodwyd yn Atodiad B i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

## 183. PENODIADAU LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD LLEOL

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i'r enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r enwebiadau canlynol fel yr argymhellwyd hwy gan Banel Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Ysgol Gynradd Brynhyfryd | Ms Isobel Norris |
| 2. | Ysgol Gynradd Portmead | Mr David Mackerras |
| 3. | Ysgol Gymunedol Dylan Thomas | Mr Adrian Rees |
| 4. | Ysgol Gyfun Tregŵyr | Ms Estelle Hart |
| 5. | YGG Llwynderw | Mrs Junnine Thomas-Walters |

## 184. YMCHWILIAD CRAFFU TRECHU TLODI

Cyflwynodd y Cynghorydd Sybil Crouch, Llywodraethwr y Panel Ymchwilio Craffu Trechu Tlodi, ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion ymchwiliad y panel i Drechu Tlodi.

**PENDERFYNWYD** y byddai Aelod y Cabinet dros Wrthdlodi a Chymunedau'n adrodd yn ôl i'r Cabinet gydag ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion craffu a'r cam(au) gweithredu arfaethedig i'r Cabinet benderfynu arnynt.

185. **STRATEGAETH TRECHU TLODI DDIWYGIEDIG AR GYFER ABERTAWE**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wrthdlodi a Chymunedau'r strategaeth trechu tlodi ddiwygiedig ar gyfer Abertawe, gan nodi ymagwedd y Ddinas a'r Sir at drechu tlodi ar gyfer pobl yn Abertawe.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r strategaeth trechu tlodi ddiwygiedig ar gyfer Abertawe, yn amodol ar ymgynghoriad ehangach.

186. **FPR7 – PROSIECT ISADEILEDD FFORDD Y BRENIN**

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio a'r Amgylchedd a Thrafnidiaeth adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gytuno ar gynllun terfynol yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ac ychwanegu'r prosiect at y Rhaglen Gyfalaf.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi'r ymgynghoriad cyhoeddus;
2. Cymeradwyo'r prosiect arfaethedig a'i oblygiadau ariannol, a'i ychwanegu at y rhaglen gyfalaf;
3. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio, ac Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth, er mwyn gwneud mân ddiwygiadau i'r prosiect arfaethedig ar yr amod nad ydynt yn arwain at newid arwyddocaol i'r cynllun neu'r costau.

187. **GWAHARDD Y CYHOEDD**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

188. **CAFFAEL EIDDO I HWYLUSO ADFYWIO CANOL Y DDINAS**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymrwymo i gynlluniau a'u hawdurdodi, yn unol â'r Rhaglen Gyfalaf neu gynnwys cynlluniau newydd yn y Rhaglen Gyfalaf.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

189. **DIWYGIO FPR7 – RHAGLEN LLEOEDD LLEWYRCHUS LLAWN ADDEWID, CANOL DINAS ABERTAWE**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y gyllideb ddiwygiedig yn y Rhaglen Gyfalaf.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r argymhelliad fel y'i nodwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.43 pm

**CADEIRYDD**

**Cyhoeddwyd: 17 Mawrth 2017**